Hysbysiad Preifatrwydd Myfyrwyr AB Grŵp Colegau NPTC - Diogelu a Defnyddio Data Myfyrwyr

Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU

1 Mae Deddf Diogelu Data 1 (DPA) a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR) yn rheoleiddio prosesu data personol mewn unrhyw fformat gan Grŵp Colegau NPTC, gan gynnwys data personol digidol a chopi caled a phob fformat arall. 'Data personol' yw unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn byw, a 'phrosesu' yw unrhyw weithgaredd a gyflawnir sy'n cynnwys data personol, gan gynnwys ei ddal a'i storio. Mae'r datganiad hwn yn berthnasol o dan y Ddeddf Diogelu Data a GDPR neu unrhyw ddeddfwriaeth olynol i'r GDPR neu'r Ddeddf Diogelu Data.

2 Mae'r datganiad hwn yn sefydlu gweithdrefnau'r Grŵp ar gasglu a rhyddhau data myfyrwyr ac fe'i darperir i fyfyrwyr yn y camau ymgeisio a chofrestru. Mae'n cynnwys gwybodaeth am sut y defnyddir data myfyrwyr, a ble y caiff ei ddarparu gan y Grŵp i Lywodraeth Cymru a phartïon allanol eraill.

3 Y Grŵp yw'r rheolwr data ar gyfer yr holl ddata personol y mae'n ei ddal a'i brosesu, ac eithrio lle gwneir hynny yn rhinwedd prosesydd data ar ran rheolwr data arall. Manylion cyswllt y Grŵp yw:

Grŵp Colegau NPTC
Heol Dŵr-y-Felin
Castell-nedd
SA10 7RF

4 Swyddog Diogelu Data'r Grŵp yw:

Swyddog Diogelu Data
Grŵp Colegau NPTC
Heol Dŵr-y-Felin
Castell-nedd
SA10 7RF
03308189014
data-protection-officer@nptcgroup.ac.uk

Hysbysiad i Ymgeiswyr a Myfyrwyr Cofrestredig

5 Gall y Grŵp ddod o hyd i, dal a phrosesu data personol myfyrwyr gan gynnwys manylion personol, amgylchiadau teuluol a chymdeithasol, cofnodion addysg a hyfforddiant, gwybodaeth am gyflogaeth, manylion ariannol, manylion cerbydau sy'n eiddo iddynt gan gynnwys manylion plât cofrestru ceir a gwasanaethau a ddarperir. Gall ddod o hyd i, dal a phrosesu'r data personol sensitif (y term a ddefnyddir gan y Ddeddf Diogelu Data) a data categori arbennig (y term a ddefnyddir gan GDPR) myfyrwyr gan gynnwys tarddiad hiliol neu ethnig, credoau crefyddol neu athronyddol, data biometrig, ac iechyd corfforol neu feddyliol.

6 Mae data personol a data personol sensitif/data categori arbennig a ddelir gan y Grŵp sy'n ymwneud â myfyrwyr wedi'i gael yn uniongyrchol gan y myfyriwr neu'r ymgeisydd, neu mewn rhai achosion gan sefydliad trydydd parti sy'n ymwneud â'r gwasanaethau a ddarperir gan y Grŵp a gafodd yr wybodaeth yn y lle cyntaf, er enghraifft ysgolion awdurdodau lleol sy'n ymwneud â recriwtio myfyrwyr, gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a'r Rhai sy'n Gadael Gofal a Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid a Gwasanaethau Prawf ar gyfer y rhai sydd â chollfarnau troseddol.

7 O ran myfyrwyr sydd â Chynllun Datblygu Unigol (CDU) neu Gynllun Gofal Iechyd Addysg (CGIA), bydd y Grŵp yn gofyn am ac yn derbyn y dogfennau hyn gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol sy'n gadael. Gall y Grŵp rannu'r wybodaeth hon gyda thrydydd parti, fel corff y GIG, i adolygu a chynllunio ar gyfer unrhyw gefnogaeth a allai fod ei hangen wrth astudio yn y Grŵp.

8 Mae'r Grŵp yn dal data personol a data personol sensitif/data categori arbennig ei fyfyrwyr er mwyn gweithredu a rheoli'r holl wasanaethau a phrosesau sy'n ymwneud â myfyrwyr, gan gynnwys recriwtio myfyrwyr, derbyn, ymrestru, addysgu a dysgu, ymweliadau addysgol, cludiant o'r cartref i'r coleg, arholiadau, graddio a gwasanaethau eraill megis llety, cymorth i fyfyrwyr a gyrfaoedd. Dim ond gwybodaeth sy'n ofynnol at y dibenion hyn sy'n cael ei chywain a'i phrosesu, a hebddo mae'n bosib na fydd modd i'r Grŵp ddarparu ei gwasanaethau. Caiff gwybodaeth ei throsglwyddo rhwng gwahanol adrannau o'r Grŵp am resymau gweithredol sy'n angenrheidiol ac yn gymesur at y dibenion a fwriadwyd.

9 Caiff data personol myfyrwyr ei gywain a'i brosesu gan y Grŵp gan ei bod yn angenrheidiol ar gyfer perfformiad y contract y mae'r Grŵp yn darparu gwasanaethau i fyfyrwyr oddi tani. Gellir cynnal rhai gweithgareddau prosesu hefyd o dan rwymedigaeth gyfreithiol (er enghraifft, datgelu data personol i bartïon allanol o dan bwerau statudol), pan fydd angen gwneud hynny i ddiogelu buddiannau hanfodol y myfyriwr neu barti arall (er enghraifft, datgeliadau i bartïon allanol i sicrhau diogelwch a lles unigolion), pan fydd ei angen i berfformio tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol (er enghraifft, cywain neu ddatgelu gwybodaeth er mwyn bodloni gofynion rheoliadol neu statudol), neu pan fydd yn angenrheidiol ar gyfer buddiannau cyfreithlon a ddilynir gan y Grŵp neu drydydd parti (bydd y buddiannau cyfreithlon yn ymwneud â darparu gwasanaethau'n effeithlon, yn gyfreithlon ac yn gymesur ac na fydd yn niweidiol i fuddiannau neu hawliau unigolion). Pan nad yw unrhyw un o'r seiliau cyfreithiol hyn yn berthnasol, gofynnir am gydsyniad unigolyn i brosesu ei ddata personol.

10 Pan fydd data personol sensitif/data categori arbennig myfyrwyr yn cael ei gywain a'i brosesu gan y Grŵp, bydd hyn ar sail gyfreithiol cydsyniad penodol y myfyriwr, cyflogaeth neu ofynion nawdd cymdeithasol/amddiffyn, diogelu buddiannau hanfodol y myfyriwr neu barti arall, arfer neu amddiffyn hawliad cyfreithiol, rhesymau buddiannau cyhoeddus sylweddol, dibenion gofal meddygol neu iechyd, neu pan fydd yr wybodaeth wedi'i chyhoeddi gan y myfyriwr. Bydd unrhyw brosesu yn gymesur ac yn ymwneud â darparu gwasanaethau gan y Grŵp. Pan ddefnyddir y data hwn at ddibenion monitro ac adrodd, fe gaiff ei ddienwi neu ei ffugenwi os yw'n bosib.

11 Gall y Grŵp ddatgelu data personol a data personol sensitif/data categori arbennig myfyrwyr i asiantaethau allanol y mae ganddo rwymedigaethau iddynt; er enghraifft, ar gyfer Llywodraeth Cymru, y Gronfa Ariannol Wrth Gefn (CAWG), a dibenion fisa a mewnfudo, ac i ganghennau eraill o lywodraeth ganolog neu leol, i'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), Cyllid Myfyrwyr Cymru (CMC), Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), Cronfa Ffyniant Cymdeithasol y DU, Gyrfa Cymru, Estyn ac o bosibl sefydliadau eraill o'r fath at ddibenion diffiniedig. Gall hefyd ddatgelu gwybodaeth i gyrff arholi, cynrychiolwyr cyfreithiol, asiantaethau Heddlu neu ddiogelwch, cyflenwyr neu ddarparwyr gwasanaethau a sefydliadau arolygu ac ymchwil a ddefnyddir gan y Grŵp, ac awdurdodau rheoleiddio.

Os oes gan fyfyrwyr ddyledion heb eu talu i'r Grŵp ar ddiwedd eu cwrs, gall y Grŵp, yn ôl ei ddisgresiwn, drosglwyddo'r wybodaeth hon i asiantaethau casglu dyledion i fynd ar drywydd y ddyled.

12 Mae'r Grŵp hefyd yn defnyddio data personol myfyrwyr fel a ganlyn:

a. Darparu manylion cyswllt i Undeb y Myfyrwyr er mwyn iddo allu cynnig gwasanaethau priodol i fyfyrwyr. Cysylltwch â student-union@nptcgroup.ac.uk os nad ydych chi eisiau i'ch manylion cyswllt gael eu rhannu ag Undeb y Myfyrwyr.

b. Gall Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr y Grŵp gysylltu â myfyrwyr sy'n datgan angen iechyd neu angen dysgu ychwanegol neu os ydynt yn blentyn sy'n derbyn gofal / yn gadael gofal, yn ofalwr / yn ofalwr oedolyn ifanc, yn gyn-filwr y lluoedd arfog neu'n aelod o deulu gyda rhiant / gwarcheidwad sy'n aelod gwasanaethol o'r lluoedd arfog neu sydd wedi cael euogfarn droseddol wedi'i datgelu i drafod y gefnogaeth sydd ar gael yn gyfrinachol.

c. Creu cardiau adnabod a phoblogi technoleg Adnabod Platiau Rhif Awtomatig (ANPR) a fydd yn alluogi systemau mynediad rheoledig sy'n gweithredu ar draws y coleg

ch. Darparu adroddiadau cynnydd i riant/warcheidwad myfyrwyr o dan bedair ar bymtheg oed ac i noddwyr myfyrwyr (ac eithrio perthnasau).

d. Darparu cyfeiriadau at sefydliadau addysgol, Gwasanaeth Derbyniadau Prifysgolion a Cholegau (UCAS) a chyflogwyr, fel arfer gyda chydsyniad y myfyriwr neu'r graddedig.

dd. Cyhoeddi enwau myfyrwyr mewn rhaglenni gwobrau blynyddol

e. Datgelu gwybodaeth am fyfyrwyr a graddedigion at ddiben hyrwyddo'r Grŵp, ac i'w cyn-ysgolion at ddibenion cyswllt ag ysgolion, ond dim ond gyda chaniatâd y myfyriwr os cânt eu hadnabod yn bersonol.

f. At ddibenion darganfod llên-ladrad, gan ddefnyddio'r gwasanaeth canfod llên-ladrad *Turnitin* ar-lein.

ff Cyflenwi manylion personol ac ariannol i ddarparwyr gwasanaethau ariannol a gyflogir gan y Grŵp, er enghraifft ar gyfer talu ffioedd, ad-daliadau, benthyciadau a gwasanaethau tebyg, gan gynnwys Cyllid Myfyrwyr Cymru.

g. Datgelu gwybodaeth i bartïon allanol at ddibenion diogelu a dyletswydd gofal, er enghraifft i wasanaethau cymdeithasol, ymarferwyr meddygol ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith.

ng. Yn amodol ar adolygiad fesul achos, darparu manylion cyswllt i gwmnïau a sefydliadau trydydd parti a ddefnyddir yn ffurfiol gan y Grŵp i ddarparu lefelau uwch o wasanaeth i gefnogi gweithgareddau craidd, gan gynnwys cyflogwyr at ddibenion lleoliadau profiad gwaith.

h. Adrodd am ddiffyg presenoldeb i rieni/gwarcheidwaid yn achos myfyrwyr sydd o dan 19 oed ac i rieni/gwarcheidwaid myfyrwyr sydd o dan 25 oed os yw eu diffyg presenoldeb yn peri pryder o ran lles meddyliol

i. Datgelu gwybodaeth am statws ymrestru a chyflawniadau myfyrwyr gyda'u AALl gwreiddiol a Gyrfa Cymru er mwyn olrhain cynnydd ym mlynyddoedd 12 a 13.

j. Tynnu llun ffotograffig a gaiff ei storio yn system Rheoli Gwybodaeth y Coleg ac i'w defnyddio at ddibenion adnabod gan gynnwys ymgorffori mewn bathodyn adnabod y coleg ac ar systemau ymgeisio mewnol, ar Moodle ac ar Teams

l. At ddibenion archwilio mewnol, gan gynnwys archwilwyr mewnol ac allanol penodedig y Grŵp ac Estyn.

13 Mae'r Grŵp yn ei gwneud yn ofynnol i bob myfyriwr ar y campws gymryd rhan yn ei system monitro presenoldeb (marcio cofrestr). I rai grwpiau myfyrwyr, mae'n ofyniad statudol bod y Grŵp yn monitro presenoldeb (er enghraifft ar gyfer myfyrwyr sy'n hawlio Grant Cynhaliaeth Addysg (GCA) / Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (GDLl) a myfyrwyr rhyngwladol) ac efallai y bydd gofyniad i adrodd am ddiffyg presenoldeb i gyrff swyddogol (e.e., Fisâu a Mewnfudo'r DU). Mae hefyd yn cynorthwyo'r Grŵp yn ei ddyletswydd gofal a'i ddarpariaethau cymorth, yn ogystal â galluogi dadansoddi elfennau penodol o ddarpariaeth gwasanaeth megis rheoli gofod.

14 Mewn rhai achosion, gall y Grŵp drosglwyddo data personol myfyrwyr i drydydd partïon sydd wedi'u lleoli mewn gwledydd eraill. Bydd unrhyw drosglwyddiadau o'r fath yn ymwneud yn llwyr â darparu gwasanaethau craidd y Grŵp, gan gynnwys i sefydliadau partner dramor. Gall gwasanaethau TG a ddefnyddir gan y Grŵp gynnwys trosglwyddo neu letya data personol cwsmeriaid dramor. Gall data personol gael ei rannu ag asiantau rhyngwladol y mae'r Grŵp yn eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau i fyfyrwyr rhyngwladol. Mae pob achos o drosglwyddo data personol dramor yn destun mesurau diogelu technegol a darpariaethau cytundebol priodol sy'n cynnwys sicrwydd priodol er mwyn sicrhau diogelwch y data a chydymffurfio'n llawn â gofynion deddfwriaethol a rheoliadol.

15 Mae rhai adrannau o'r Grŵp yn ymgymryd â phrosesau sy'n ymwneud â data personol ymgeiswyr neu fyfyrwyr sy'n cynnwys elfennau o broffilio. Enghreifftiau yw'r Swyddfa Cyfathrebu Marchnata a'r Swyddfa Derbyniadau, lle mae'r prosesau hyn yn cael eu defnyddio i bennu natur y cyfathrebiadau a anfonir at unigolion ac i hwyluso gweithdrefnau recriwtio a derbyn myfyrwyr.

16 Bydd cofnod academaidd sylfaenol ar gyfer myfyrwyr unigol yn cael ei gadw'n barhaol gan y Bartneriaeth, a chedwir cofnodion manylach am gyfnodau cadw diffiniedig. Gellir cael manylion y cyfnodau cadw a briodolir i wahanol elfennau o gofnodion myfyrwyr ar gais.

17 Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch defnyddio data personol myfyrwyr a amlinellir uchod, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data drwy e-bost data-protection-officer@nptcgroup.ac.uk neu ffoniwch 03308189014.

Hawliau Unigol

18 Mae gan unigolion y mae eu data personol a data personol sensitif/data categori arbennig wedi'i gadw gan y Grŵp yr hawliau a ganlyn o ran eu data:

a. Yr hawl i ofyn am fynediad i'w data personol a ddelir gan y Grŵp.

b. Yr hawl i ddata personol anghywir neu anghyflawn gael ei gywiro.

c. Yr hawl i ddileu data personol - bydd hyn yn berthnasol dim ond pan nad oes rheswm dilys i'r Grŵp barhau i brosesu'r data personol. Fel arfer, bydd yn ofynnol i'r Grŵp gadw cofnod myfyriwr sylfaenol am gyfnod amhenodol.

ch. Yr hawl i gyfyngu ar brosesu data personol - mae gan unigolion yr hawl i rwystro'r Grŵp rhag prosesu eu data personol mewn sefyllfaoedd penodol.

d. Yr hawl i gludadwyedd data – mae gan fyfyrwyr hawl i ofyn am ddarparu rhai elfennau o'u gwybodaeth (er enghraifft manylion cynnydd academaidd) ar ffurf ddigidol er mwyn ei darparu i sefydliadau eraill.

dd. Yr hawl i wrthwynebu – Gall myfyrwyr wrthwynebu i brosesu eu data personol gan y Grŵp mewn rhai amgylchiadau, gan gynnwys anfon a derbyn deunyddiau marchnata uniongyrchol.

e. Yr hawl i wrthwynebu i benderfyniadau a wneir yn awtomatig a phroffilio - mae gan unigolion yr hawl i wrthwynebu penderfyniadau a wneir trwy foddau wedi'u hawtomeiddio heb ymyrraeth ddynol o dan rai amgylchiadau.

Dylid gwneud pob cais i arfer unrhyw un o'r hawliau hyn i Swyddog Diogelu Data'r Grŵp.

19 Pan fydd prosesu data personol neu ddata personol sensitif/data categori arbennig yn seiliedig ar gydsyniad y myfyrwyr, mae ganddynt yr hawl i ddileu caniatâd unrhyw bryd drwy gysylltu â'r adran neu wasanaeth a gafodd y caniatâd hwnnw neu â Swyddog Diogelu Data'r Grŵp.

20 Os yw myfyriwr yn anfodlon ar y ffordd y mae'r Grŵp yn ymdrin â'i data personol, neu'n credu na chydymffurfir yn llawn â gofynion y Ddeddf Diogelu Data neu GDPR, dylent gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Grŵp yn y lle cyntaf. Gellir defnyddio gweithdrefn gwyno ffurfiol y Grŵp os yw'n briodol, ac mae ganddynt hefyd yr hawl i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth; mae manylion pellach ar gael yn www.ico.org.uk.

Arolygon Myfyrwyr ac Ymadawyr

21 O bryd i'w gilydd mae'n bosibl y gofynnir i chi gwblhau arolygon naill ai ar gyfer y Grŵp neu ar ran sefydliadau eraill, er enghraifft Undeb y Myfyrwyr. Bydd y sefydliadau hyn a'u contractwyr yn defnyddio'ch manylion at y diben hwnnw yn unig, ac wedyn byddant yn eu dileu.

22 Nid yw'n ofynnol i chi gymryd rhan mewn unrhyw un o'r arolygon hyn ond mae cyfranogiad yn cynorthwyo'r Grŵp, yn ogystal â chyrff llywodraethol a rheoleiddio, i gyflawni eu dyletswyddau statudol, swyddogol a cyhoeddus.

Cyflwyno Eich Data i Lywodraeth Cymru

23 Mae'n ofyniad statudol i'r Bartneriaeth anfon peth o'r wybodaeth a ddaliwn amdanoch i Lywodraeth Cymru (LIC). Mae Llywodraeth Cymru'n casglu, ac yn gyfrifol am, y gronfa ddata lle caiff eich gwybodaeth dysgu ei storio. Mae LIC yn defnyddio eich gwybodaeth at ei dibenion ei hun. Mae LIC hefyd yn rhannu eich gwybodaeth gyda thrydydd partïon at ddibenion penodedig a chyfreithlon. Gall godi tâl ar sefydliadau eraill y mae'n darparu gwasanaethau a data iddynt. Gall defnydd LIC o'ch gwybodaeth Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (CDGOC) gynnwys cysylltu gwybodaeth ohono â data arall, fel y disgrifir yn natganiad LIC ar wahân a ddarperir wrth ymrestru / gwneud cais ac sydd wedi'i gysylltu isod. Mae'n rhaid i bob defnydd o wybodaeth LIC gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU.

24 Os byddwch yn rhoi gwybodaeth i ni am eich tarddiad ethnig neu hiliol, barn wleidyddol, credoau crefyddol, aelodaeth o Undeb Llafur, iechyd corfforol neu feddyliol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd neu droseddau neu achosion troseddol, gellir cynnwys y rhain yn eich gwybodaeth LIC a'u defnyddio i gynorthwyo gyda monitro cyfle cyfartal a dileu gwahaniaethu anghyfreithlon yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.

25 I ddarllen yr hysbysiad casglu data myfyrwyr llawn gan Lywodraeth Cymru ewch i:

Hysbysiad Preifatrwydd Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru F8.0 2024 [HTML] | LLYW.CYMRU

Disgwylir y bydd Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru V8.0 2024 yn cael ei ddisodli yn ystod oes y datganiad preifatrwydd hwn gan yr hysbysiad preifatrwydd Medr newydd.

Dywed Medr “Yma rydym yn amlinellu sut y byddwn yn defnyddio’r wybodaeth a ddarparwch ac am ba hyd y byddwn yn ei chadw. Dogfen a etifeddwyd gan Lywodraeth Cymru yw hon, a byddwn yn darparu ein diweddariad ein hunain maes o law. Bydd y diweddariad wedi'i leoli @Data a dadansoddi - Medr

Monitro Systemau TG a Chyfrifon Myfyrwyr

26 Dylai myfyrwyr hefyd fod yn ymwybodol, o dan rai amgylchiadau, y gall y Grŵp fonitro'r defnydd o'i systemau TG a chyrchu gwybodaeth defnyddwyr ar ei systemau a'i rwydweithiau sydd fel arfer yn breifat. Bydd unrhyw fonitro neu fynediad sefydliadol yn cydymffurfio â deddfwriaeth y DU gan gynnwys Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000, Deddf Hawliau Dynol 1998, a Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU. Lle bo angen, bydd unrhyw fynediad neu fonitro yn gyfiawn, yn deg, ac yn gymesur, a bydd yn gweddu i Bolisi Defnydd Derbyniol MIS y Grŵp a'r Polisi Safon Preifatrwydd, y mae copïau ohonynt ar gael ar gais.

Technolegau Deallusrwydd Artiffisial (AI)

27 Mae'r Grŵp yn defnyddio technolegau Deallusrwydd Artiffisial (AI) i gefnogi a gwella gwahanol agweddau ar y prosesau addysgol a gweinyddol. Rydym yn ymrwymo i gynnal y safonau uchaf o ddiogelu data yn unol â gofynion Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR). Cynhelir yr holl brosesu data sy'n gysylltiedig ag AI gyda sylw i ddiogelwch, tryloywder a chyfanrwydd data myfyrwyr. Rydym yn sicrhau bod pob defnydd o AI yn cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol. Lle mae cyfyngiad oedran ar gyfer defnyddio offer AI, gofynnir am ganiatâd cyn eu defnyddio gan fyfyrwyr neu rieni/warcheidwaid ar gyfer myfyrwyr o dan 18 oed.

Defnydd Myfyrwyr o Ddata Personol

28 Dim ond i'w ddefnyddio mewn cysylltiad â'u hastudiaethau academaidd neu ymchwil y caniateir i fyfyrwyr sy'n aelodau o'r Grŵp brosesu data personol. Dim ond gyda chaniatâd penodol ymlaen llaw gan eu haelod staff goruchwyliol y cânt wneud hyn, a dim ond yn unol ag unrhyw ganllawiau neu Bolisi Safon Preifatrwydd a gyhoeddwyd gan y Grŵp ac sydd mewn grym ar y pryd. Mae hyn yn berthnasol waeth p'un a yw'r gweithgareddau hynny'n cael eu gwneud ar offer sy'n eiddo i'r Grŵp ai beidio a waeth p'un a ydynt yn cael eu gwneud ar safle'r Grŵp ai beidio. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r data personol: gael ei gaffael a'i brosesu'n deg ac yn gyfreithlon; cael ei ddefnyddio at ddibenion penodedig a chyfreithlon yn unig; bod yn gywir ac yn ddiweddar; cael ei ddal yn ddiogel; cael ei gadw i'r lleiafswm posibl a'i ddienwi neu ei ffugenwi lle bo modd; peidio â chael ei gyhoeddi, ei roi ar-lein na'i gymryd y tu allan i'r DU heb ganiatâd yr unigolyn dan sylw; a chael ei ddileu neu ei ddinistrio pan nad yw'n berthnasol i'w gadw mwyach. Mae gan yr unigolion y cedwir data amdanynt hawl i archwilio'r data oni bai ei fod yn cael ei gadw at ddibenion ymchwil yn unig ac na chaiff ei ryddhau mewn ffordd sy'n gallu adnabod yr unigolion dan sylw.

29 Rhaid i fyfyrwyr sydd angen prosesu data personol at ddibenion academaidd neu ymchwil sicrhau eu bod yn ymwybodol o ofynion cyffredinol Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU a rhaid iddynt gydymffurfio â'r egwyddorion diogelu data a nodir yn Atodlenni I, II a III o'r Ddeddf Diogelu Data, ac Erthyglau 5, 6 a 9 o GDPR. Gall myfyrwyr wneud hyn drwy gael copi o ganllawiau cyfredol y Grŵp ar ddiogelu data, a gwybodaeth berthnasol bellach gan eu haelod staff goruchwyliol neu'r Swyddog Diogelu Data.

30 Gall myfyrwyr sy'n methu â chydymffurfio ag unrhyw ganllawiau neu God Ymarfer sydd mewn grym gael eu dal yn bersonol atebol am unrhyw achos o dorri Deddf Diogelu Data 2018 neu Reoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU o ganlyniad.